Dadansoddi elfen feidraidd: Egwyddorion a chymwysiadau sylfaenol T804

Patrwm cyflwyno O fis Tachwedd i fis Ebrill

Disgrifiad o'r modiwl

Peirianneg sydd wrth wraidd bywyd modern. Mae peirianwyr heddiw'n defnyddio cyfrifiaduron a meddalwedd wrth ddylunio a gweithgynhyrchu'r rhan fwyaf o gynhyrchion, prosesau a systemau sy'n rhan o'n ffyrdd o fyw. Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno'r dull elfen feidraidd i fyfyrwyr ac yn eu haddysgu am yr angen am waith gwerthuso a gwirio cynhwysfawr wrth ddehongli canlyniadau. Mae'n cwmpasu damcaniaethau sylfaenol; modelu, cyfuno a dadansoddi modelau cydrannol ar gyfer gwasgiannau, allwyriadau, tymereddau a dirgryniadau o dan amodau a llwythi gweithredol; trin amodau a chyfyngiadau ffin; ac enghreifftiau o arfer da ar gyfer defnydd diogel ac effeithiol ar waith.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â manyleb gyffredinol y person ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd mewn peirianneg fecanyddol neu faes sy'n gysylltiedig â pheirianneg
- profiad o addysgu a defnyddio dadansoddiad elfen feidraidd
- diddordeb mewn dylunio peirianneg, peirianneg gyda chymorth cyfrifiadur a dadansoddi
- y gallu i uniaethu â myfyrwyr dysgu o bell ar lefel ôl-raddedig.

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- profiad o hyfforddi ar T884.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno ar gyfer aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	5